

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mawrth 2il, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Naomi Jones; William Ifor Hughes; Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; Ifor Wyn Davies; Margaret Griffith; Sian Angharad Parry; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Alwen Evans ac Elis Gwyn Jones.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 26ain, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen a chofnod rhif 11, Ceisiadau am Gymorth Ariannol. *Penderfynwyd ymhellach nad oes angen derbyn mantolen ariannol i fudiadau sydd gyda mantolen ar eu gwefan. Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi derbyn cyngor bod y penderfyniad yma'n torri'r rheolau a hyd yn oed yn anghyfreithlon.* Mewn cyfarfod drefnwyd gan Un Llais Cymru hyfforddiant Modiwl 21 - Cyllid Llywodraeth Leol, yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth, nos Iau Chwefror 2il, 2017 cynghorwyd gan hyfforddwr Un Llais Cymru, Ms Katherine Owen bod y penderfyniad yn torri'r rheolau a hyd yn oed yn anghyfreithlon. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gwyrdroi penderfyniad Cyngor Ionawr 26ain. Hynny yw bydd gofyn i bawb sy'n gwneud cais am gymorth ariannol gyflwyno mantolen ariannol.
4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr Margaret Griffith a Trefor Wyn Jones yn datgan diddordeb yn rhif 16.1 ar y rhaglen waith, cais Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog am gymorth ariannol. Y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn datgan diddordeb yn rhif 16.2 ar y rhaglen waith, cais Pwyllgor Mynwent Capel Helyg am gymorth ariannol. Y Cyngorwyr Marian Evans, Naomi Jones, Sian Angharad Parry, Anwen Jones a Tegid Jones yn datgan diddordeb yn rhif 16.7 ar y rhaglen waith, cais Pwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy am gymorth ariannol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Cynllunio; Arwydd ger y fynedfa i safle Tyddyn Morthwyl Camping Site, Rhoslan. Mae'r Swyddog yn edrych i mewn i'r ymholiad a bydd yn hysbysu o ganlyniadau'r archwiliad hwnnw ynghyd ag unrhyw weithredu pellach os penderfynir felly. Penderfynwyd dilyn hyn i fyny ar raglen waith pob Cyngor nes ceir ymateb.
 2. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Swyddog Datblygu Iaith Gweithle. Mae bwriad i gyflwyno polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Iaith yn fuan. Bydd y polisi hwn yn delio gydag ymrwymiad Cyngor Gwynedd i hyrwyddo enwau llefydd a nodweddion cynhenid Cymraeg. Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad ar ôl i'r mater gael ei drafod gan y Pwyllgor Iaith.
 3. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Aelodaeth y Pwyllgor Safonau. *Mae'r aelodau annibynnol yn gwasanaethu am 6 mlynedd ac mae'n bosib eu hail benodi am gyfnod pellach o ddim mwy na 4 mlynedd. Pan fydd sedd yn dod yn wag mae trefn statudol i'w dilyn sy'n golygu bod rhaid i ni hysbysebu am ymgeiswyr a bod panel wedyn yn ystyried pob cais cyn gwneud argymhelliad i'r*

Cyngor Llawn, fydd yn gwneud y penodiad. Mewn achos o ail-benodi nid oes rheidrwydd mynd drwy'r broses o hysysebu. Nid oes sedd wag yn bodoli ar y Pwyllgor ar hyn o bryd. Penderfynwyd derbyn. Bydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn dilyn hyn i fyny yn eu cyfarfod.

4. Rheoleiddio - Cau'r Ffordd Dosbarth 111 Gwaharddiad Trafnidiaeth gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Ty'n Llan, Llanarmon. Derbyniwyd er gwybodaeth.

5. Swyddog Gweithredol Llesiant; gwybodaeth am wasanaeth DEWIS Cymru sef gwefan newydd ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â Llesiant. Penderfynwyd llenwi'r holiadur a gofyn am chwaneg o'r taflenni i'w harddangos ar hysbysfyrdau'r Cyngor.

6. Swyddog Canlyniadau; Etholiadau Cyngorau Tref/Cymuned ar Fai 4ydd, 2017. Rhannwyd y taflenni i'r Cyngorwyr a threfnwyd bod y Clerc yn anfon y wybodaeth am y dyddiadau ac ati i'r Cyngorwyr drwy e bost. *Dyma'r dyddiadau pwysig ar gyfer yr uchod.*

1. *Ni ddylid dyddio'r ffurflen Cydsyniad Ymgeisydd cyn 7fed o Fawrth 2017 i fod yn ddilys.*

2. *Bydd angen eu dychwelyd i swyddfa'r Cyngor yng Nghaernarfon/Dolgellau neu Bwllheli rhwng Mawrth 20fed a diwedd y cyfnod enwebu sef 4pm Ebrill 4ydd, 2017.*

3. *Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gwblhau'r enwebiad ar eu safle we: www.electoralcommission.org.uk*

4. *Dylai ymgeiswyr sy'n sefyll dan enw plaid wleidyddol fod yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno tystysgrif a roddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig y blaid honno.*

5. *Byddwch angen rhifau etholiadol eich cynigydd a'ch eilydd ar gyfer y papur enwebu a'ch rhif etholiadol chi ar gyfer y Cydsyniad Ymgeisydd ar gyfer Enwebiad; mae'r rhain gen i.*

6. *Cofiwch gysylltu mewn da bryd os ydych angen cymorth.*

7. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sylwadau erbyn dydd Iau Mawrth 9fed, 2017. Bydd y Cyngorwyr Margaret Griffith, Trefor Wyn Jones, Aled Lloyd Evans a Thomas Prys Jones, sydd wedi bod yn ffurfio ymateb ar ran y Cyngor, yn anfon eu sylwadau at y Clerc iddo yntau gael eu hanfon ymlaen cyn y dyddiad cau. Diolchwyd i'r pedwar am ymgymeryd â gwaith swmpus.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C17/0062/41/LL – Cais i godi sied amaethyddol i gadw da byw; Llwyn Gwyn, Llanybi. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais Rhif C17/0158/41/LL- Codi sied amaethyddol; Gelli Gron, Llanarmon. Cefnogwyd.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Rhoslan a Chwilog

Mater gan y Cyngorydd Anwen Jones ynghylch cyflwr y ffordd o gyfeiriad Capel y Beirdd i Chwilog, (dim yn bell o fynedfa Rhos Ddu). Mae tyllau difrifol yn y

ffordd ac mae angen llau dail ac agor ffôs yma gan mai diffyg clirio hynny sy'n difrodi'r ffordd. Deallir hefyd bod tyllau yn y ffordd o groeslon Ysgubor Hen am Benybryn. Penderfynwyd cysylltu ag Adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd.

Chwilog

Mater gan y Cynghorydd Margaret Griffith ynghylch y llanast sydd bob ochr i fynedfa Penarth, gyferbyn â Ffatri Laeth Rhydygwystl. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Gwastraff Stryd y Cyngor Sir i ofyn iddynt glirio a gosod arwydd ynghylch peidio gadael llanast.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

Y Cynghorydd Gwilym M Thomas am sôn am broblem gyda gwasanaeth Cymraeg Scottish Power. Roedd wedi cysylltu gyda'r gwasanaeth, wedi cael ei ateb gan rywun di Gymraeg, yn Warrington mae'n debyg, a phan ofynnodd i rywun Cymraeg ei iaith gysylltu ag o, dywedwyd y gallai gymeryd rhwng tri a phum diwrnod. Penderfynwyd anfon y gŵyn ymlaen at Liz Saville Roberts AS.

Llangybi

Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones. Mae un fraich i'r arwydd ar y groeslon ger Bronallt, Llangybi yn hongian yn beryglus; mae'r arwydd ar y groeslon ym Mhencaenewydd yn gamarweiniol. Dywedwyd hefyd bod breichiau'r arwydd ar groeslon Tŷ Newydd yn pwyntio ffordd groes. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Reoleiddio, Cyngor Gwynedd.

Llanystumdwy

Mater gan y Cadeirydd ynghylch Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn Llanystumdwy. Un o denantiaid Cae'r Ffynnon (Tai Cymunedol) , sef mam ifanc gyda dau o blant wedi cyfnewid ei chartref gyda dyn o Fanceinion.

A ydy Tai Cymunedol yn ymwybodol o hyn ? Os ydynt, a ydynt yn gwybod ychydig o hanes y person? Dyma'r ail dro mae hyn wedi digwydd yn Llanystumdwy yn ddiweddar a mae'n achosi pryder ymysg y tenantiaid eraill ac i'r gymuned gyfan.

Penderfynwyd gofyn i Gartrefi Cymunedol Gwynedd beth ydi eu polisi ynghylch hyn a pha ganllawiau sydd ganddynt ynghylch gwirio'r rhai sydd yn gwneud ceisiadau o'r math yma?

8. Grŵp Cynefin; Grant Cymunedol Hafod y Gest. Penderfynwyd anfon hwn at Olygyddion Y Ffynnon. Deallir bod y grant yn gymwys i gymuned Llanystumdwy gyfan.

9. Comisiwn Ffiniau a Democraeth Leol Cymru; Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Gwynedd. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

10. Un Llais Cymru; Hyfforddiant mis Mawrth. Cynhelir cwrs cyfrwng Cymraeg yng Nghaernarfon nos Iau Mawrth 20fed rhwng 6.30 a 9pm, Modiwl 9 Cod Ymddygiad. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tegid Jones a Sian Angharad Parry gysylltu gyda'r Clerc os ydynt awydd mynd.

11. Adroddiad ar y cwrs Cyllid Llywodraeth Leol gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth nos Iau Chwefror 2il, 2017 gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Dyma oedd y prif argymhellion:

- a. Rhaid cael mantolen ariannol i gydfynd â chais am gymorth ariannol.
- b. Mae'n ofynnol cael cyfarfod blynyddol i'r Cyngor.
- c. Os yn talu drwy BACS dylai'r Cadeirydd/Is gadeirydd arwyddo a dyddio'r taliad.

- Ch. Dylid ymgynghori gyda'r gymuned cyn gwneud penderfyniadau.
- d. Cyfanswm swm praesept blwyddyn sydd yn dderbyniol fel arian wrth gefn.

Materion Ariannol

12. Solar Farm at Tyddyn Gwyn, Gelli Gron Estate. Mae'r cwmni yn barod i wneud eu taliad cyntaf budd i'r gymuned. Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi bod yn y banc i agor cyfrif arbennig i dderbyn yr arian. Pan fydd rhif y cyfrif newydd yn barod cysylltir gyda'r cwmni iddynt gael gwneud y taliad. Derbyniwyd.

13. Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant mewn Cynghorau Cymuned a Thref. Cymerodd y Clerc ran mewn gweminar am yr uchod. Gofynnwyd i'r Clerc anfon y wybodaeth ymlaen pan fydd yn barod i'w rannu.

14. Adroddiad ariannol ar lafar. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

15. Anfonebau angen eu talu:

a. Un Llais Cymru, 2 le ar hyfforddiant Modiwl 21 - Cyllid Llywodraeth Leol, Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth, nos lau Chwefror 2il; £70- - £15-bwrsari gan Un Llais Cymru, cyfanswm £55-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod 3039.

b. Swyddfa Archwilio Cymru, Archwiliad o Gyfrifon 2015/16, £199.95c; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod 00005493.

c. Cyflog chwarter y Clerc wedi'i rannu gyda Chyllid a Thollau EM; cyflog gross £900-, Cyllid a Thollau EM £900- x 20% = £180-, taliad siec; penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100945; Cyflog net = £720-, taliad siec; penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100946.

ch. Costau chwarter y Clerc, £85.00c, taliad siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100947.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

d. Neuadd Goffa Chwilog am logi Ystafell Myrddin yn ystod y flwyddyn; 6 cyfarfod = £84-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod 410.

dd. Criccieth Cleaning Ltd. am lanhau chwarterol y llochesi bws ar Ionawr 11eg, 2017; £103- + TAW = £123.60c; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod 1404.

16 .Ceisiadau am gymorth ariannol

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog. Ymneilltuodd y Cynghorwyr Margaret Griffith a Trefor Wyn Jones yn ystod y drafodaeth. Penderfynwyd cyfrannu £400-, taliad siec rhif 100948.

2. Mynwent Capel Helyg. Ymneilltuodd y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn ystod y drafodaeth. Penderfynwyd cyfrannu £400-, taliad siec rhif 100949.

3. Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Penderfynwyd cyfrannu £50- taliad siec rhif 100950.

4. Dawns i Bawb. Penderfynwyd cyfrannu £100- a gofyn am fanylion am eu gwaith yn yr ardal hon, taliad siec rhif 100957.

5. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli. Penderfynwyd cyfrannu £100-, taliad siec rhif 100 951.
6. Shelter Cymru. Penderfynwyd cyfrannu £50-, taliad siec rhif 100952.
7. Mynwent Newydd Llanystumdwy. Ymneilltuodd y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd), Naomi Jones, Sian Angharad Parry, Tegid Jones ac Anwen Jones yn ystod y drafodaeth a daeth yr Is gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym M Thomas i'r gadair. Penderfynwyd cyfrannu £500-, taliad BACS cyfeirnod GRANT.
Daeth y Cadeirydd yn ôl i'r gadair.
8. Pwyllgor Mynwent Tai Duon. Penderfynwyd cyfrannu £50-, taliad siec rhif 100953.
9. Theatr Bara Caws. Penderfynwyd cyfrannu £100-, taliad siec rhif 100954.
10. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi. Penderfynwyd cyfrannu £500-, taliad siec rhif 100955.
11. Cyngor ar Bopeth. Penderfynwyd cyfrannu £50-, taliad siec rhif 100956.

Roedd rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.

Y canlynol wedi cyflwyno cais ond heb gyflwyno mantolen ariannol er gofyn am un ac o'r herwydd ni ystyriwyd eu ceisiadau.

1. Cylch Meithrin Chwilog, adroddiad banc yn unig.
2. Côr Eifionydd.
3. Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.
4. Marie Curie.
5. Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.
6. Macmillan Cancer Support.
7. Bobath (heb ofyn am fantolen ariannol i'r rhain yn dilyn penderfyniad cyfarfod Ionawr 26ain, 2017).

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd

17. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol 2017/18. Derbyniwyd er gwybodaeth.
18. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Ail gyfnod ymgynghori. Derbyniwyd er gwybodaeth.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

